

## YSGOL GYNRADD TALYSARN

5/9/16

Annwyl Rieni,

Gobeithio eich bod i gyd wedi mwynhau gwyliau'r haf. Rydym ôll fel staff Ysgol Talysarn yn edrych ymlaen i gydweithio gyda'r disgyblion a chwithau yn ystod y flwyddyn addysgol newydd yma.

Croesawn dwy athrawes newydd i'n plith sef Miss Emma Lewthwaite a Miss Eiliw Pritchard yn ystod cyfnod mamolaeth Mrs Einir Evans a Miss Bethan Evans. Mae'r ddwy wedi cael hogiau bach sef Deio Rhys a Ioan Fon – Llongyfardchiadau mawr i'r ddwy ohonynt.

Dyma rai dyddiau pwysig i nodi ar eich calendr:-

**Gwyliau Diolchgarwch** – Ysgol yn cau dydd Gwener **Hydref 21** ac yn ail agor dydd Llun **31 o Hydref**.

**Gwyliau'r Nadolig** – Ysgol yn cau dydd Gwener **Rhagfyr 16** ac yn ail agor dydd Mawrth, **Ionawr 3ydd**.

### **Cinio Ysgol**

Cost cinio ysgol yw £2.30 y diwrnod. Bydd arian cinio yn cael ei gasglu bob dydd Llun neu dydd Gwener. Os yw'r plant yn dymuno newid o focs bwyd i ginio ysgol neu fel arall mae angen rhybudd o ddwy wythnos.

### **Eiddo Personol**

Os gwelwch yn dda allwch chi sicrhau fod enwau'r disgyblion ar ei holl eiddo yn cynnwys siwmperi, bagiau a chotiau.

### **Siop Ffrwythau**

Cost ffrwyth fydd 20c. yn ddyddiol. Gellir talu £1.00 ar ddechrau'r wythnos.

### **Addysg Gorfforol**

**Nofio/Tenis** – Bydd disgyblion Blwyddyn 1, 2, 3, 4, 5 a 6 yn mynd i'r Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon bob pnavn dydd Gwener i gael gwersi nofio a tenis. Yn ystod y tymor yma bydd disgyblion Blwyddyn 2, 5 a 6 yn derbyn gwersi nofio. Bydd disgyblion Blwyddyn 1, 3 a 4 yn derbyn hyfforddiant tenis. Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £1.80 tuag at y bws.

**Byddwn yn cychwyn y gwersi Dydd Gwener yma sef y 9fed o Fedi.**

Yn ogystal bydd y disgyblion angen dillad ymarfer corff ar y dyddiau yma.

**Blwyddyn 5 a 6** - Dydd Iau

**Blwyddyn 3 a 4** - Dydd Mercher

**Blwyddyn 1 a 2** - Dydd Llun

**Derbyn** - Dydd Llun a Dydd Gwener

**Meithrin** - Dydd Llun

### **Rhif Lwcus**

Bydd y rhif lwcus yn dechrau yn ôl bob dydd Gwener. Cost rhif yw £1 a bydd yr enillydd yn cadw hanner y wobr a'r gweddill yn mynd at Gronfa'r ysgol.

### **Gwirfoddolwyr**

Mae'r ysgol yn awyddus iawn i groesawu unrhyw un sydd yn fodlon gwirfoddoli ar dripiâu, bws nofio ac ati. Os oes gennych ddiddordeb a fyddech cystal a chysylltu hefo'r ysgol.

**Gwaith Cartref**

Gwerthfawrogwn gefnogaeth y rhieni i sicrhau bod y disgyblin yn cwblhau ei gwaith cartref ac yn darllen bob nos.

**Blwyddyn 5 a 6** - Bydd gwaith cartref yn cael ei osod bob dydd Llun a disgwylir ef yn ôl bob dydd Gwener.

**Blwyddyn 3 a 4** - Bydd gwaith cartref yn cael ei osod bob dydd Mawrth a disgwylir ef yn ôl bob dydd Gwener.

**Blwyddyn 1 a 2** - Bydd gwaith cartref yn cael ei osod dydd Gwener a disgwylir ef yn ôl bob dydd Llun.

**Teganau**

Nid ydym yn caniatáu i'r disgyblion ddod a teganau gyda hwy i'r ysgol.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.